

# EDERN DAFOD AUR, g r y dywedir yn rhai o lawysgrifau'r 16eg ganrif iddo lunio dosbarth bychan ar lythrennau'r Gymraeg ac ar ffurfiau geiriau

**Enw:** Edern Dafod Aur

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** lunio dosbarth bychan ar lythrennau'r Gymraeg ac ar ffurfiau geiriau

**Maes gweithgaredd:** Ysgolheictod ac leithoedd

**Awdur:** Griffith John Williams

Ceir amryw gopiâu o'r dosbarth hwn. Mynnai'r copiŵyr weithiau mai Edern, mab Padarn Beisrudd, ydoedd, hynny yw, mai ef oedd tad [Cunedda Wledig](#)! Dywedai'r [Dr. John Davies](#), ar y llaw arall, mai tua 1280 y blodeuai. '[lolo Morganwg](#)' oedd y cyntaf i haeru mai ei waith ef oedd y gramadeg a gysylltir ag enwau [Einion Offeiriad](#) a [Dafydd Ddu o Hiraddug](#), a chan mai ei gopi ef ydoedd ffynhonnell yr un a ddefnyddiodd [John Williams](#) ('ab Ithel') wrth gyhoeddi'r gramadeg hwnnw, rhoes iddo'r teitl, *Dosparth Edeyrn Davod Aur*, 1856. Ceisiodd [Syr John Morris-Jones](#) brofi mai gwaith 'ffug-hynafol o'r unfed ganrif ar bymtheg' yw'r dosbarth a dadogir arno yn y llawysgrifau, ac i'r ffugiwr (pwy bynnag ydoedd) ei alw'n 'Edern' oherwydd bod yr enw'n debyg i 'Herodian,' hen ramadegwr o'r ail ganrif Ac nid yw 'Dafod Aur' namyn cyfieithiad o'r cyfenw Groeg 'Chrysostom.' Er hynny, gellir tybied fod y dosbarth yn gynharach nag a awgrymir gan [Syr John](#), oherwydd sonnir am 'Ddull Edern Dafod Aur' ym marwnad [Tudur Aled](#) gan [Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan](#). Y mae'n eglur ei fod wedi ennill ei blwyf fel un o'r hen awdurdodau erbyn 1525, ac felly y mae'n fwy na thebyg fod y dosbarth yn perthyn i'r ganrif flaenorol. Rhaid with fwy o ymchwil cyn medru datrys y broblem hon.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

## Ffynonellau

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1923-4, 1-8

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Edern Dafod Aur](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5242064](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

